Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

10.07.23

**Gweithredu diwydiannol**
**Dydd Iau Gorffennaf y 13eg**

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Fel y soniwyd yn y llythyr yma: Gweithredu Diwydiannol-NASUWT 130723, mae undeb athrawon NASUWT wedi hysbysu Cyngor Abertawe ei fod yn bwriadu cynnal streicio diwydiannol lleol mewn ysgolion uwchradd yn Abertawe ar ddydd Iau 13 Gorffennaf 2023. Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r effaith ar y disgyblion ac mewn cytundeb gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr, fe fydd rhaid i'r ysgol weithredu fel y dengys isod.

Nid yw'r penderfyniad i gau'r ysgol yn rhannol byth yn cael ei wneud yn ysgafn neu heb ystyried yn ofalus yr effaith ar ddysgwyr a'n gallu i redeg yr ysgol yn ddiogel. Rwy'n ymwybodol o'r anghyfleustra a achosir i rieni a gwarcheidwaid, felly rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu o effaith y gweithredu ar yr ysgol. Byddwn felly:

1. **Ar agor i ddisgyblion bl.12.**
2. **Ar gau i ddisgyblion bl.7-10. Hoffwn gadarnhau'r trefniadau gosod gwaith ar gyfer disgyblion 7-10 isod:**

- Bydd gwaith yn cael ei adael i'ch plentyn ar lwyfan Teams (mynediad drwy Hwb).
- Bydd y gwaith yn cael ei osod yn nosbarth Teams eich plentyn ar gyfer pob pwnc yn unigol.
- Bydd angen cwblhau'r gwaith yn ystod y wers arferol.
- Ni fydd gwersi byw o gwbl ar ddydd Iau.

Yn naturiol, mae rhai staff yn mynd i fod yn absennol oherwydd salwch ar ddydd Iau ac eraill o bosib yn gweithredu'n ddiwydiannol. Ni fydd gwaith yn cael ei adael ar gyfer y dosbarthiadau ble mae staff yn absennol o'r ysgol. Ni fyddwn yn gallu hysbysu disgyblion ymlaen llaw am hyn.

Os nad oes gliniadur gan eich plentyn er mwyn cael mynediad at Teams, yna cwblhewch yr holiadur byr yma erbyn canol dydd Mercher 12.07.23. Fe drefnwn ni bod cliniadur ar gael i'ch plentyn i fenthyg ar gyfer cwblhau gwaith ar ddydd Iau y 13eg.

Rydym yn ymwybodol bod yna gynlluniau i gynnal diwrnodau o weithredu diwydiannol pellach yn nhymor yr Hydref. Byddwn yn eich hysbysu o effaith y gweithredu yma ar ddisgyblion yr ysgol yn agosach at yr adegau yma. Os oes unrhyw gwestiwn pellach, peidiwch oedi i gysylltu.

Yn ddiffuant,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi School of Rugby
Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales